


COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU



Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru



Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Paratowyd yn Unol â deddf yr Iaith Gymraeg 1993

MAWRTH 2016

Dyddiad Cymeradwy:

Cymeradwyd gan:

Dyddiad Adolygu:

Mawrth 2016

Aelodau'r Comisiwn

Mawrth 2018

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

DATGANIAD

Paratowyd y cynllun hwn yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a derbyniodd gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn unol ag adran 14(1) y Ddeddf ar 17 Gorffennaf 1998.

Cafodd y cynllun hwn ei adolygu a'i ddiweddarau ym mis Mawrth 2016, gan gymryd i ystyriaeth oblygiadau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

CYNLLUN IAITH GYMRAEG CYNNWYS

Tudalen

1. CYFLWYNIAD	1
2. CYNLLUNIO GWASANAETH	2
3. CYFLWYNO GWASANAETHAU A SAFONAU ANSAWDD	2
4. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG	3
Gohebiaeth	3
Ffonio	3
Cyfarfodydd Cyhoeddus	4
Cyfarfodydd Eraill Gyda'r Cyhoedd	4
5. WYNEB CYHOEDDUS COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU	5
Hunaniaeth Gorfforaethol	5
Cyhoeddiadau	5
Hysbysiadau Cyhoeddus	5
Hysbysiadau i'r Wasg	6
Arolygon Cyhoeddus	6
Gwefan	6
Cyfryngau Cymdeithasol	6
6. GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN	7
Staffio	7
Hysbysiadau Recriwtio	7
Recriwtio	7
Hyfforddiant Iaith	8
Trefniadau Gweinyddol i Hwyluso'r Cynllun	8
Gwasanaethau a Gyflwynir Gan Eraill ar Ran y Comisiwn	9
Arolygu	9
Cyhoeddusrwydd i Wasanaethau Cymraeg y Comisiwn	10
7. AWGRYMIADAU AR GYFER GWELLIANNAU/CWYNION	11
ATODIAD A - AMSERLEN A THARGEDAU	12

Comisiwn Ffiniau A Democratiaeth Leol Cymru

Tŷ Hastings

Llys Fitzalan

CAERDYDD

CF24 0BL

Ffôn: (029) 20464819

Ffacs: (029) 20464823

E-bost: cfddl.cymru@cymru.gsi.gov.uk

www.cfddl-cymru.gov.uk

Mawrth 2016

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

CYNLLUN IAITH GYMRAEG

Paratowyd yn unol ag Adran 12 Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

1. CYFLWYNIAD

Rydym ni, sef Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (y Comisiwn), yn gorff cyhoeddus a sefydlwyd ym 1974 ac a ailenwyd o dan delerau Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Mae'r Ddeddf 2013 hon yn disodli Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd. Nodir swyddogaethau statudol y Comisiwn yn Rhannau 3 a 4 Deddf 2013 (cyfeirir at Ddeddf 2013 yn y ddogfen hon fel 'y Ddeddf'). Gellir crynhoi ein prif dasg fel a ganlyn:

arolygu ardaloedd llywodraeth leol a threfniadau etholiadol yng Nghymru, gyda'r bwriad o ystyried p'un ai i gyflwyno cynigion i Weinidogion Cymru ai peidio er mwyn gweithredu newidiadau sy'n ymddangos i'r Comisiwn fel rhai sy'n ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a hwylus.

Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn yn cynnwys Cadeirydd, Dirprwy Gadeirydd a 3 aelod, gyda phob un ohonynt wedi'u penodi gan Weinidogion Cymru. Penodir aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio'r Comisiwn gan y Comisiwn. Ar hyn o bryd mae gennym staff cymorth o ddeg wedi'u lleoli yn swyddfeydd y Comisiwn yng Nghaerdydd.

Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Comisiwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae wedi'i gymeradwyo gennym ni ac rydym yn rhoi cefnogaeth lwyr iddo.

Mae'r Comisiwn wedi penodi'r Gadeirydd yn Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg a bydd yn rhydd i weithio gyda staff y Comisiwn i gynyddu a gwella ein defnydd ar y Gymraeg.

Mae'r Rheoliadau'r Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016, a ddaeth i rym ar 16 Chwefror 2016, yn sefydlu fframwaith i gyflwyno dyletswyddau ar y sefydliadau a'u enwir i gydymffurfio a Safonau sydd yn berthnasol i'r iaith Gymraeg. Gan fo'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn un o'r sefydliadau a'u enwir yn y Rheoliadau, mae'r Comisiwn yn rhagweld byddai'r Comisiynydd y Gymraeg yn cyflwyno Hysbysiad Cydymffurfio yn ystod 2016. Ar ôl i'r Rheoliadau'r Safonau'r Gymraeg dod i rym, ni fydd ofyn i sefydliadau cyhoeddi Cynlluniau Iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn paratoi am y newid o Gynllun Iaith Gymraeg i Reoliadau'r Safonau'r Gymraeg; yn y cyfamser, parhawn i fonitro ac adolygu ein Cynllun Iaith Gymraeg.

2. CYNLLUNIO GWASANAETH

Mae'r Comisiwn yn paratoi Cynllun Gweithredu Blynyddol, sy'n nodi, o fewn y cyddestun statudol, raglen waith, targedau blynyddol, dangosyddion perfformiad, safonau ac adnoddau ar gyfer pob blwyddyn. Wrth gynllunio'r ddarpariaeth o wasanaethau, rydym yn ymrwymedig i:

- Cynnal y mesurau hynny sy'n hyrwyddo a hwyluso'r egwyddor o gydraddoldeb wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn unol â'r cynllun hwn;
- Ehangu'r egwyddor i unrhyw bolisi, gweithgaredd a phryniant newydd, gan sicrhau y datblygir mesurau ychwanegol sy'n gyson â'r cynllun hwn; ac,
- Arolygu effeithiolrwydd gweithredu'r mesurau a nodir yn y cynllun hwn.

3. CYFLWYNO GWASANAETHAU A SAFONAU ANSAWDD

Ein prif ddyletswydd yw cynghori Gweinidogion Cymru ar faterion sy'n effeithio ar gynghorau sir a chynghorau cymunedol ledled Cymru. Rydym felly yn ymgynghori, ac mae dyletswydd arnom i ystyried sylwadau'r awdurdodau hynny, yn ogystal â chyrff eraill sydd â diddordeb ac unigolion. Ymgwymerir â chyhoeddusrwydd eang i sicrhau bod ein gwaith arolygu a'r cynigion dilynol yn cael cyhoeddusrwydd eang. Golyga natur ein gwaith bod pwyslais ar adroddiadau ysgrifenedig a llythyrau. Rydym yn croesawu ymatebion i'n prosesau ymgynghori yn yr iaith Gymraeg.

Er mwyn gweithredu ein polisi iaith Gymraeg, mae pob llythyr cychwynnol, cyhoeddiad a chyhoeddusrwydd yn ddwyieithog. Mae cyfarwyddiadau desg, templedi safonol a meddalwedd TG sgript-gytûn yn cael eu defnyddio. Mae'r Comisiwn yn defnyddio contract ar gyfer cyfieithiadau, sydd yn darparu gwasanaeth cyfieithu cynhwysfawr.

Rydym wedi cymryd camau i ddarparu gwasanaeth cyfartal yn y ddwy iaith. Mynegir y camau hyn fel mesurau yn yr adrannau dilynol. Mewn dwy ffordd: wrth ateb galwadau ffôn ac wrth ddelio ag ymwelwyr heb apwyntiad, mae'r gallu i ymateb yn Gymraeg yn amrywio o bryd i'w gilydd yn ôl sgiliau ieithyddol y staff a gyflogir ar y pryd. Nodir y mesurau a gymerwyd i ymdrin â'r amgylchiadau hyn yn yr adrannau perthnasol sy'n delio â chyfathrebu a recriwtio.

Mae'r safonau perfformiad, yn cynnwys y rheiny sy'n deillio o Siarter y Dinesydd yr un fath ar gyfer y ddwy iaith.

4. DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

Gohebiaeth

Rydym yn dechrau pob arolwg drwy ysgrifennu at y cyngor sir, cynghorau cymuned, Aelodau Seneddol perthnasol, ynghyd ag Aelodau'r Cynulliad a chyrrff eraill sydd â diddordeb. Ysgrifennir at y rhain eto pan gyhoeddir cynigion drafft a chynigion terfynol.

Mesurau:

- Bydd llythyrau cychwynnol a llythyrau eglurhaol i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, yn ogystal â llythyrau eraill a anfonir at y rheiny na wyddys pa un yw eu dewis iaith.
- Paratoir templedi ein llythyrau yn y ddwy iaith.

Mae'r Comisiwn yn croesawu llythyrau a negeseuon e-bost yn Gymraeg.

Mesurau:

- Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg byddwn yn ateb yn Gymraeg.
- Mae ein hamser targed ar gyfer ateb i lythyrau a negeseuon e-bost yn Gymraeg yr union yr un fath â'r un ar gyfer ateb llythyrau a negeseuon e-bost yn Saesneg.
- Pan fyddwn yn ysgrifennu at unigolyn, grŵp neu sefydliad y gwyddom eu bod yn gweithio yn bennaf yn Gymraeg, neu y gwyddys bod yn well ganddynt dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg, byddwn yn ysgrifennu yn Gymraeg.
- Yn dilyn cyfarfod wyneb yn wyneb neu sgwrs ffôn yn Gymraeg, bydd unrhyw ohebiaeth ddilynol yn Gymraeg, oni wneir cais i ni wneud fel arall.
- Er mwyn gallu gweithredu'r mesurau hyn, cysylltw'n â'n gwasanaeth cyfieithu dros y ffôn a'r e-bost. Rydym yn cadw cronfa ddata o'r rheiny sy'n dymuno delio â ni yn Gymraeg.

Ffonio

Croesewir ymholiadau dros y ffôn yn Gymraeg. Mae argaeledd staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn amrywio o bryd i'w gilydd gyda throsiant staff ond byddwn bob amser yn ceisio dod o hyd i rywun sy'n siarad Cymraeg i ateb eich ymholiad.

Mesurau:

- Bydd staff y Comisiwn yn cael hyfforddiant i'w galluogi i ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog.
- Os byddwch yn ffonio'r Comisiwn ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond nad yw'r sawl sy'n cymryd yr alwad yn gallu siarad Cymraeg, cewch eich trosglwyddo i aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg os bydd ar gael. Os na fydd siaradwr Cymraeg ar gael i ddelio â'ch ymholiad, cynigir dewis i chi, naill ai bod siaradwr Cymraeg, a allai fod yn gyfieithydd allanol, yn eich ffonio yn ôl, neu eich bod yn parhau â'r alwad yn Saesneg.
- Fodd bynnag, efallai y bydd adegau pan na fydd unrhyw un ar gael a all ateb eich ymholiad yn llawn - yn arbennig os bydd hyn yn arbenigol. (Gall yr un broblem godi gydag ymholiadau ffôn yn Saesneg.) Yn yr achosion hyn bydd rhywun yn gofyn i chi am fanylion eich ymholiad, neu gallant eich cynghori i anfon eich ymholiad atom yn ysgrifenedig. Yna byddwch yn derbyn ateb yn Gymraeg drwy'r post.
- Mae gennym beiriant ateb dwyieithog.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Byddwn o dro i dro yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus ledled Cymru a chroesewir pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg.

Mesurau:

- Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd yn ddwyieithog, gan wneud ein polisi iaith yn glir.
- Byddwn yn sicrhau y bydd aelod o'r Comisiwn neu'r Ysgrifenyddiaeth sy'n siarad Cymraeg yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus.
- Byddwn yn darparu cyfleusterau cyfieithu ar y pryd fel mater o arfer mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

Cyfarfodydd Eraill Gyda'r Cyhoedd

Yn ogystal â chyfarfodydd cyhoeddus, bydd achlysuron pan gynhelir cyfarfodydd eraill gydag unigolion a sefydliadau.

Mesurau:

- Pan fyddwn yn trefnu cyfarfod ymlaen llaw gydag unigolyn neu sefydliad, byddwn yn gofyn iddynt ba un yw eu dewis iaith. Os bydd yn well ganddynt ddefnyddio'r Gymraeg, byddwn yn cynnal

y cyfarfod yn Gymraeg os yn bosibl neu'n cynnig darparu cyfieithiad.

- Bydd ymwelwyr heb apwyntiad sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn cael cynnig gwasanaeth ein cyfieithydd allanol dros y ffôn os na fydd aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.

5. WYNEB CYHOEDDUS COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

Hunaniaeth Gorfforaethol

Mae gan y Comisiwn hunaniaeth ddwyieithog ac rydym wedi mabwysiadu mesurau i gadarnhau hyn.

Mesurau:

- Mae enw, cyfeiriad a gwybodaeth gysylltiedig am y Comisiwn yn ddwyieithog ar arwyddion ein swyddfa, cloriau cyhoeddiadau a phob ffurf arall ar arddangosiad cyhoeddus.
- Mae gwybodaeth print ar bapur pennawd, slipiau cyfarch, cardiau busnes staff a deunyddiau ysgrifennu corfforaethol eraill y Comisiwn i gyd yn dilyn yr un fformat dwyieithog.
- Rhoddir amlygrwydd cydradd i'r ddwy iaith.

Cyhoeddiadau

Ar gyfer pob arolwg rydym yn cyhoeddi adroddiadau drafft ac adroddiadau terfynol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Rydym hefyd yn cynhyrchu nodiadau canllaw a chyhoeddiadau eraill o bryd i'w gilydd.

Mesurau:

- Byddwn yn cynhyrchu pob cyhoeddiad yn Gymraeg a Saesneg.
- Wrth ystyried enwau wardiau etholiadol, byddwn yn ystyried unrhyw gyngor a roddir gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi'r un pryd. Bydd y fersiynau'r un mor hygyrch ac o'r un ansawdd, fformat ac amlygrwydd.

Hysbysiadau Cyhoeddus

Caiff hysbysiadau cyhoeddus eu rhoi i lyfrgelloedd mewn ardaloedd sy'n cael eu harolygu i roi cyhoeddusrwydd i gamau cychwynnol, drafft a therfynol yr arolygon.

Mesurau:

- Bydd hysbysiadau cyhoeddus a roddir i lyfrgelloedd yng Nghymru yn ddwyieithog.
- Rhoddir cydraddoldeb i'r ddwy iaith o ran fformat, maint ac amlygrwydd ar yr hysbysiadau yr ydym yn cyhoeddi.

Hysbysiadau i'r Wasg

Rydym yn cyhoeddi hysbysiadau i olygyddion y wasg, radio a theledu, yn eu hysbysu am y cynigion drafft a therfynol.

Mesur:

- Rydym yn paratoi hysbysiadau i'r wasg yn ddwyieithog. Mae'r hysbysiadau hyn fel arfer mewn un ddogfen. Fodd bynnag, gellir paratoi hysbysiadau hir ar wahân yn Gymraeg a Saesneg a'u cyhoeddi gyda'i gilydd.

Arolygon Cyhoeddus

Mae weithiau'n angenrheidiol cynnal arolygon cyhoeddus, er enghraifft i gasglu gwybodaeth ystadegol neu i geisio barn y cyhoedd. Gellir contractio sefydliad allanol i wneud y gwaith hwn.

Mesur:

- Byddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gwefan

Mae gwefan y Comisiwn yn darparu gwybodaeth am y Comisiwn ynghyd â chynnig mynediad at gyhoeddiadau mewn perthynas ag arolygon, cofnodion cyfarfodydd, adroddiadau blynyddol ac yn y blaen.

Mesur:

- Byddwn yn cynnal gwefan ddwyieithog a bydd yr holl dudalennau gwe a dogfennau ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y wefan yn cael ei diweddarau yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd.

Cyfryngau Cymdeithasol

Hefyd rydym yn darparu gwybodaeth am y Comisiwn ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys hysbysiadau ynghylch cyhoeddi arolygon a datblygiadau.

Mesur:

- Byddwn yn cyhoeddi negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y negeseuon hyn yn cael eu cyhoeddi yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

6. GWEITHREDU AC AROLYGU'R CYNLLUN

Staffio

Nod y Comisiwn yw cael digon o staff sydd â'r sgiliau siarad Cymraeg priodol er mwyn ein galluogi i gyflwyno gwasanaeth llawn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ein strategaeth tuag at gyflawni'r nod yn cynnwys arolwg o fanylebau timau a swyddi, gan fanteisio ar gyfleoedd i ddenu siaradwyr Cymraeg yn ystod recriwtio a hyfforddiant.

Mesur:

- Byddwn yn edrych ar swyddi i ystyried p'un a fyddai'n hanfodol neu'n ddymunol cael siaradwyr Cymraeg, a nodi hyn yn y disgrifiadau swydd.

Hysbysiadau Recriwtio

Mae swyddi gwag, gan gynnwys swyddi'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr, yn cael eu hysbysebu ar Wefan Swyddi'r Gwasanaeth Sifil.

Mesurau:

- Bydd disgrifiadau swyddi ar gael yn ddwyieithog trwy ddolen ar wefan Swyddi'r Gwasanaeth Sifil.
- Bydd ein polisi iaith yn cael ei ddatgan a bydd y sgiliau ieithyddol a ddisgwyli'r gan ddeiliad swydd yn cael eu nodi ym mhob gwybodaeth recriwtio.

Recriwtio

Ymgwymerir ag asesiad o alluoedd yr ymgeiswyr drwy ddefnyddio meini prawf gwrthrychol i sicrhau y gwneir apwyntiadau ymhob achos ar sail deg a chyson.

Mesur:

- Gallu ieithyddol fydd un o nifer o sgiliau y dylid eu cadw mewn cof wrth benodi staff a chaiff ei asesu yn erbyn y lefel o sgiliau sydd ei hangen ar gyfer y swydd a nodwyd yn flaenorol.

Hyfforddiant iaith

Mae hyfforddiant iaith yn chwarae rhan bwysig wrth gynyddu'r nifer o staff sy'n gallu gweithio yn Gymraeg.

Mesurau:

- Rydym yn annog ac, o bosibl, mewn rhai amgylchiadau, yn ei gwneud yn ofynnol i staff ymgymryd â hyfforddiant iaith priodol, er enghraifft, i helpu gydag ynganu enwau lleoedd Cymraeg.
- Byddwn yn ystyried cefnogaeth ariannol, mewn achosion priodol, os bydd staff eisiau ymgymryd â hyfforddiant iaith priodol.
- Byddwn yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Trefniadau Gweinyddol i Hwyluso'r Cynllun

Cynlluniwyd y mesurau a nodir yn y cynllun hwn i weithredu polisi iaith Gymraeg y Comisiwn. Rydym wedi mabwysiadu'r mesurau gweinyddol ychwanegol canlynol i ategu'r ffordd y caiff y cynllun ei weithredu fel rhan annatod o'n gwaith.

Mesurau:

- Mae'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Prif Weithredwr wedi derbyn cyfrifoldeb penodol i sicrhau y gweithredir y cynllun yn gyson.
- Mae pob aelod o'r staff wedi derbyn canllaw ysgrifenedig manwl ar ffurf cyfarwyddiadau desg sy'n cynnwys defnyddio'r Gymraeg yng ngwaith y Comisiwn, ac maent wedi derbyn copïau o'r cynllun hwn.
- Byddwn yn sicrhau bod manyleb systemau TG newydd neu rai a gaiff eu newid yn cwrdd ag anghenion y cynllun hwn.
- Bydd tendrau ar gyfer gwasanaethau cyfieithu, drwy Gytundeb y Fframwaith Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Cymraeg, yn parhau i gael eu hasesu ar gyfer medrusrwydd ac ansawdd gwasanaeth yn ogystal â phris.
- Bydd cyfieithiadau'n cael eu monitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod ansawdd y Gymraeg a ddefnyddir yn ein cyhoeddiadau yn dderbyniol.

Gwasanaethau a Gyflwynir Gan Eraill ar Ran y Comisiwn

Rydym yn cydnabod y dylai'r un safonau fod yn berthnasol pan wneir gwaith ar ein rhan a phan y'i gwneir gan ein staff ein hunain.

Mesurau:

- Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gan drydydd parti sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru yn gyson â thelerau'r cynllun.
- Bydd y Comisiwn yn darparu drwy drefniadau contractio bod y contractwr yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o'r cynllun wrth ddelio â'r cyhoedd.
- Bydd y Comisiwn yn nodi'r gofynion o ran defnyddio'r Gymraeg mewn dogfennau tendro a chontractau.

Arolygu

Byddwn yn arolygu pa mor llwyddiannus rydym yn cwrdd â'n hymroddiad i'r egwyddor o drin yr iaith Gymraeg yn gydradd drwy'r cynllun hwn.

Mesurau:

- Bob blwyddyn bydd y Prif Weithredwr yn paratoi adroddiad ar gyfer y Comisiwn yn dangos perfformiad wrth gwrdd â gweithredu'r mesurau penodol a fabwysiadwy gennym o ran:

Y Cynllun Gweithredu Blynyddol
Cyflwyno gwasanaethau
Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg
Hunaniaeth gorfforaethol
Recriwtio a hyfforddi staff
Gwasanaethau a gyflwynir gan eraill
Yr amserlen ar gyfer gweithredu
Awgrymiadau a chwynion

- Asesir perfformiad yn erbyn targedau yn yr amserlen sy'n atodol i'r cynllun hwn, wedi ei ategu gan gofnodion o eitemau mesuradwy. Bydd yr adroddiad yn rhoi rhesymau dros unrhyw dargedau a fethwyd a nodi'r camau adfer arfaethedig.
- Cyflwynir yr adroddiad i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd yr adroddiad ar gael am ddim i'r cyhoedd a bydd ar gael ar wefan y Comisiwn.
- Byddwn yn cynnwys crynodeb o'r adroddiad yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn. Cyflwynir yr Adroddiad Blynyddol i Weinidogion Cymru, ei roi gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ei ddosbarthu i Aelodau Seneddol ac Aelodau'r

Cynulliad, awdurdodau lleol a chyrff eraill a chaiff ei hysbysebu ar wefan y Comisiwn.

Cyhoeddusrwydd i Wasanaethau Cymraeg y Comisiwn

Yn unol â chanllawiau'r cyn Fwrdd yr Iaith Gymraeg, cafodd y cynllun hwn ei hysbysebu yn y wasg a'i ddosbarthu'n eang. Fodd bynnag, rydym eisiau i'r cyhoedd barhau i fod yn ymwybodol o'r ffyrdd y gallant ddewis cyfathrebu â ni.

Mesurau:

- Byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'n mesurau ar gyfer gwasanaethu siaradwyr Cymraeg yn ein Hadroddiad Blynyddol.
- Bydd pob cyhoeddiad a chyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig ag arolygon y Comisiwn – sef ein prif gyswllt â'r cyhoedd – yn ei gwneud yn eglur y gall y cyhoedd ddelio â'r Comisiwn yn Gymraeg. Bydd cyhoeddiadau Saesneg yn rhoi gwybod i'r cyhoedd fod fersiwn Gymraeg ar gael hefyd.

7. AWGRYMIADAU AR GYFER GWELLIANNAU/CWYNION

Rydym yn croesawu awgrymiadau ar gyfer gwella ein mesurau ar gyfer delio â siaradwyr Cymraeg. Os byddwn yn methu o ran yr ymrwymadau a wnaethom yn y cynllun hwn, rydym yn gobeithio y bydd y cyhoedd yn dweud wrthym. Os bydd gennych awgrym ar gyfer gwelliannau neu os bydd cwyn gennych ynglŷn â gwasanaethau'r Comisiwn yn Gymraeg ysgrifennwch at:

Y Prif Weithredwr
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
CAERDYDD
CF24 0BL

neu ffoniwch 02920 464819

neu ffacs 02920 464823

neu e-bost cffdl.cymru@cymru.gsi.gov.uk

Atodiad A

AMSERLEN A THARGEDAU

Mesur	Targed Amserlen
Cynnal mesur sy'n hyrwyddo a hwyluso'r egwyddor o gydraddoldeb wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn unol â'r cynllun hwn.	Parhaus
Sicrhau bod mesurau ychwanegol yn cael eu datblygu i ehangu'r egwyddor i unrhyw bolisi, gweithgaredd neu bryniant newydd.	Parhaus
Arolygu effeithiolrwydd gweithredu'r mesurau a nodir yn y cynllun hwn.	Parhaus

Bydd llythyrau cychwynnol a llythyrau eglurhaol i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.	Cyflawnwyd eisoes
Caiff templedi ar gyfer llythyrau eu paratoi yn y ddwy iaith a'u diweddarau yn ôl yr angen.	Cyflawnwyd eisoes
Atebion i ohebiaeth yn Gymraeg yn Gymraeg.	Cyflawnwyd eisoes
Yr un amser targed ar gyfer ateb llythyrau yn Gymraeg ag ar gyfer ateb llythyrau yn Saesneg.	Cyflawnwyd eisoes
Ysgrifennu yn Gymraeg at unigolyn, grŵp neu sefydliad y gwyddom eu bod yn gweithio yn bennaf yn Gymraeg neu y gwyddys bod yn well ganddynt dderbyn llythyrau yn Gymraeg.	Cyflawnwyd eisoes
Bydd gohebiaeth ddilynol, yn dilyn cyfarfod wyneb yn wyneb neu sgwrs dros y ffôn yn Gymraeg, yn Gymraeg, oni wneir cais i ni wneud fel arall.	Cyflawnwyd eisoes
Cedwir cronfa ddata o'r rhai sy'n dymuno delio â ni yn Gymraeg.	Cyflawnwyd eisoes
Bydd staff y Comisiwn yn cael hyfforddiant i'w galluogi i ateb galwadau ffôn yn ddwyieithog.	Parhaus
Trosglwyddir galwyr sy'n dymuno siarad Cymraeg i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg neu bydd cyfieithydd allanol yn eu ffonio'n ôl, neu gallant barhau â'r alwad yn Saesneg.	Cyflawnwyd eisoes
Mewn achosion lle na fydd unrhyw un ar gael sy'n gallu ateb yr ymholiad yn llawn, gofynnir i'r galwyr am fanylion am yr ymholiad, neu cânt eu cynghori i gyflwyno'r ymholiad yn ysgrifenedig. Yna, anfonir ateb yn Gymraeg drwy'r post.	Cyflawnwyd eisoes
Caiff neges ddwyieithog ei recordio ar y peiriant ateb.	Cyflawnwyd eisoes
Rhoddir cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd yn ddwyieithog.	Cyflawnwyd eisoes
Bydd aelod o'r Comisiwn neu'r Ysgrifenyddiaeth sy'n siarad Cymraeg yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus.	Cyflawnwyd eisoes
Darperir cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd pan fydd yr angen wedi'i nodi.	Fel y bo'r angen
Cynhelir cyfarfodydd a drefnir ymlaen llaw yn Gymraeg os bydd angen.	Fel y bo'r angen
Cynigir gwasanaeth cyfieithydd allanol dros y ffôn i ymwelwyr dirybudd sy'n dymuno cyfathrebu yn Gymraeg os na fydd aelod o'r staff sy'n siarad Cymraeg ar gael.	Cyflawnwyd eisoes

Bydd enw, cyfeiriad a gwybodaeth gysylltiedig am y Comisiwn yn ddwyieithog ar arwyddion swyddfa, cloriau cyhoeddiadau a phob ffurf arall ar arddangosiad cyhoeddus.	Cyflawnwyd eisoes
Bydd gwybodaeth print ar bapur pennawd, slipiau cyfarch, cardiau busnes staff a deunyddiau ysgrifennu corfforaethol eraill y	Cyflawnwyd eisoes

Mesur	Targed Amserlen
Comisiwn yn ddwyieithog.	
Rhoddir amlygrwydd cydradd i'r ddwy iaith.	Cyflawnwyd eisoes
Cynhyrchir pob cyhoeddiad yn Gymraeg a Saesneg.	Cyflawnwyd eisoes
Wrth ystyried enwau wardiau etholiadol, byddwn yn ystyried cyngor a roddir gan Gomisiynydd y Gymraeg.	Parhaus
Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi'r un pryd a byddant yr un mor hygyrch ac o'r un ansawdd, fformat ac amlygrwydd.	Cyflawnwyd eisoes
Bydd hysbysiadau cyhoeddus a roddir i lyfrgelloedd yng Nghymru yn ddwyieithog.	Cyflawnwyd eisoes
Bydd y ddwy iaith mewn hysbysiadau cyhoeddus yn cael eu trin yn gyfartal o ran fformat, maint ac amlygrwydd.	Cyflawnwyd eisoes
Bydd hysbysiadau i'r wasg yn ddwyieithog ac mewn un ddogfen fel arfer. Fodd bynnag, gellir paratoi hysbysiadau hir ar wahân yn Gymraeg a Saesneg a'u cyhoeddi gyda'i gilydd.	Cyflawnwyd eisoes
Cynhelir arolygon cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg.	Parhaus
Cynhelir gwefan ddwyieithog. Bydd diweddariadau i'r wefan yn cael eu gwneud yn y ddwy iaith yr un pryd.	Cyflawnwyd eisoes
Bydd negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y negeseuon hyn yn cael eu cyhoeddi'r un pryd.	Cyflawnwyd eisoes

Edrych ar swyddi i ystyried a fyddai'n hanfodol neu'n ddymunol cael siaradwyr Cymraeg, a nodir hyn yn y disgrifiadau swyddi.	Fel y bo'r angen
Bydd disgrifiadau swyddi ar gael yn ddwyieithog trwy ddolen ar wefan Swyddi'r Gwasanaeth Sifil.	Fel y bo'r angen
Caiff ein polisi iaith a'r sgiliau ieithyddol a ddisgwylir o ddeiliad y swydd eu nodi mewn gwybodaeth recriwtio.	Fel y bo'r angen
Gallu ieithyddol fydd un o nifer o sgiliau y dylid eu cadw mewn cof wrth benodi staff a chaiff ei asesu yn erbyn y lefel o sgiliau sydd ei hangen ar gyfer y swydd a nodwyd yn flaenorol.	Fel y bo'r angen
Rydym yn annog ac, o bosibl, mewn rhai amgylchiadau, yn ei gwneud yn ofynnol i staff ymgymryd â hyfforddiant iaith priodol, er enghraifft, i helpu gydag ynganu enwau lleoedd Cymraeg.	Fel y bo'r angen
Byddwn yn ystyried cefnogaeth ariannol, mewn achosion priodol, os bydd staff eisiau ymgymryd â hyfforddiant iaith priodol.	Fel y bo'r angen
Byddwn yn asesu'r angen am hyfforddiant galwedigaethol penodol drwy gyfrwng y Gymraeg.	Parhaus
Bydd y Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr yn sicrhau gweithrediad cyson y cynllun.	Parhaus
Bydd pob aelod o'r staff yn derbyn canllaw ysgrifenedig manwl ar ffurf cyfarwyddiadau desg sy'n cynnwys defnyddio'r Gymraeg yng ngwaith y Comisiwn, a byddant yn derbyn copiau o'r cynllun hwn.	Parhaus
Byddwn yn sicrhau bod manyleb systemau TG newydd neu rai a gaiff eu newid yn cwrdd ag anghenion y cynllun hwn.	Parhaus
Bydd tendrau ar gyfer gwasanaethau cyfieithu yn parhau i gael eu hasesu ar gyfer medr ac ansawdd gwasanaeth yn ogystal â phris.	Parhaus
Bydd cyfieithiadau'n cael eu monitro gan staff er mwyn sicrhau ansawdd cyhoeddiadau.	Parhaus
Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wneir gan drydydd parti sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng	Parhaus

Mesur	Targed Amserlen
Nghymru yn gyson â thelerau'r cynllun.	
Bydd y Comisiwn yn sicrhau trwy drefniadau contractio bod y contractwr yn gweithredu unrhyw elfennau perthnasol o'r cynllun wrth ddelio â'r cyhoedd.	Parhaus
Bydd y Comisiwn yn nodi'r gofynion o ran defnyddio'r Gymraeg mewn dogfennau tendro a chontractau.	Cyflawnwyd eisoes
Bob blwyddyn bydd y Prif Weithredwr yn paratoi adroddiad ar gyfer y Comisiwn yn dangos perfformiad wrth gwrdd â gweithredu'r mesurau penodol a fabwysiadwyd.	Ym mis Ebrill bob blwyddyn
Bydd yr adroddiad yn rhoi rhesymau dros unrhyw dargedau a fethwyd a nodi'r camau adfer arfaethedig.	Ym mis Ebrill bob blwyddyn
Bydd yr adroddiad perfformiad hwn yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg. Bydd yr adroddiad ar gael am ddim i'r cyhoedd.	Ym mis Mai bob blwyddyn
Caiff crynodeb o'r adroddiad ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn.	Ym mis Medi bob blwyddyn
Bydd Adroddiad Blynyddol y Comisiwn yn cyhoeddi ein mesurau ar gyfer gwasanaethu'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.	Ym mis Medi bob blwyddyn
Bydd pob cyhoeddiad a chyhoedduswyd sy'n gysylltiedig ag arolygon y Comisiwn – sef ein prif gyswllt â'r cyhoedd – yn ei gwneud yn eglur y gall y cyhoedd ddelio â'r Comisiwn yn Gymraeg. Bydd cyhoeddiadau Saesneg yn rhoi gwybod bod fersiwn Gymraeg ar gael.	Parhaus